Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Rhagfyr 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Rhagfyr 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad: Peter Black AC; Angela Burns AC; Sandy Mewies AC; a Rhodri Glyn Thomas AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16** yn amlinellu ein nodau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, sef: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â phobl Cymru; hyrwyddo Cymru; a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-16** - cynllun corfforaethol a ddatblygwyd i roi mwy o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, ein blaenoriaethau ac elfennau amrywiol o lywodraethu.

Adrodd am berfformiad

Dyma'r ail adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-2015, ac mae'n rhoi gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2014, gan gynnwys:

- uchafbwyntiau perfformiad, yn ôl nod strategol;
- crynodeb ar ffurf goleuadau traffig yn nodi'r perfformiad cyffredinol o dan bob un o'n nodau strategol;
- dadansoddiad manylach o'r dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb hwnnw; a
- cymaryddion priodol, o ystod o ffynonellau, pan fo hynny'n bosibl.

Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Mae canlyniadau arolwg adborth yr Aelodau 2014 yn ategu'r lefel uchel cyson o berfformiad mewn amrywiaeth o ddangosyddion yng nghyswllt y nod hwn, gan ddangos lefelau cyffredinol uchel o foddhad ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau. Yn benodol, mae'n werth nodi'r cynnydd sylweddol yn y sgôr ar gyfer "gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith" (o 6.2 i 8.9).

Mae gwefan y Cynulliad wedi'i huwchraddio i'w gwneud yn haws ei defnyddio. Mae'r un platfform technolegol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu system feddalwedd newydd y Siambr, a gaiff ei lansio yn nhymor yr haf 2015. Lansiwyd platfform newydd Senedd.tv ym mis Medi, gan gynnig mwy o nodweddion i ddefnyddwyr a gwell mynediad at drafodion ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau symudol.

Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Mae niferoedd ymwelwyr yn parhau i godi a chafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv.

Mae'r Cynulliad yn dal i gael cydnabyddiaeth o'r tu allan yng nghyswllt hygyrchedd a chynhwysiant. Yn ogystal â chyrraedd rhestr y Times o'r 50 cyflogwr gorau ar gyfer menywod, cael gwobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, cael ein cynnwys fel un o 20 cyflogwr gorau'r DU o ran arferion gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd a chyrraedd brig rhestr Stonewall o gyflogwyr gorau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi cael cydnabyddiaeth gan Action on Hearing Loss, gwobr mynediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a gwnaethom gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth mewn Cydraddoldeb Diverse Cymru am ein gwaith asesu effaith ar gydraddoldeb.

Ym mis Hydref 2014, cyrhaeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y rhestr fer yn rownd derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru eleni.

Perfformiad o ran defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth

Mae ein perfformiad o ran y gyllideb yn dangos ein bod yn dal ar y trywydd iawn i sicrhau bod ein sefyllfa ddiwedd y flwyddyn oddi mewn i'r targed ar gyfer tanwariant, sef 1%. Caiff perfformiad ariannol ei fonitro'n ddyfal er mwyn cydbwyso'r gofynion i wario ar weithredu a buddsoddi fel eu bod oddi mewn i'r targed o 1%. At hynny, rydym eisoes wedi cyflawni'r targed gwerth am arian (£500,000 ar gyfer y flwyddyn).

Mae ein cyfraddau absenoldeb salwch wedi gostwng hefyd, ac maent yn dal i fod o fewn y targed <3% ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2014 (2.71% o gymharu â 3.06% yn ystod yr un cyfnod y llynedd).

Cafodd ein cyflawniadau cynaliadwyedd ar gyfer yr ystâd eu cymeradwyo'n annibynnol pan enillodd y Comisiwn y wobr ar gyfer y sefydliad mwyaf cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yn y gwobrau blynyddol ar gyfer cynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus. Cyflwynwyd y wobr i gydnabod cyflawniad nodedig a phwysig wrth gyfrannu at leihau allyriadau carbon y sector cyhoeddus. Mae ein gwaith i leihau allyriadau ynni yn help mawr i sicrhau arbedion cost ar adeg pan fo costau ynni wedi bod yn arbennig o uchel.

Mae canlyniadau'r arolwg adborth diweddaraf gan Aelodau yn dangos lefelau uchel o foddhad â'r gwasanaethau a ddarperir, gyda chynnydd yn y sgorau ar gyfer: lwfansau a staffio, cymorth cyffredinol yn Nhŷ Hywel a'r Senedd, a TGCh. Mae'r canlyniadau hefyd yn helpu i lywio meysydd i'w gwella fel TGCh mewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, y system gwaith achos, swyddfeydd Aelodau yn Nhŷ Hywel ac amodau amgylcheddol yn ein hadeiladau.

Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn flynyddol, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ystod o **wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i bolisïau sefydliadol** ar wefan y Cynulliad..

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau **ynghylch cael gafael ar wybodaeth ar gael** ar wefan y Cynulliad.

Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

Rhif Grŵp KPI	Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014	Sylwadau - manylion ar dudalennau 6 – 9
1	Boddhad Aelodau	oren	gwyrdd	Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014.
2	Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau	gwyrdd	gwyrdd	Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb. Aeth perfformiad dau o'r dangosyddion ychydig yn is na 95% ar gyfer cyhoeddi papurau pwyllgor a thrafodion pwyllgor, lle y mae targedau mwy heriol wedi'u pennu yn ddiweddar.
3	Datblygiad Proffesiynol	gwyrdd	gwyrdd	Dysgwyr Cymraeg ar gynnydd, ynghyd â'r nifer o Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus.
4	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	gwyrdd	gwyrdd	Ymgorffori ymhellach y cynnydd tuag at "bwyllgorau o'r radd flaenaf". Technoleg wedi'i huwchraddio yn gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion. Arbedion a sicrhawyd drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu gwell.

Rhif Grŵp KPI	Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014	Sylwadau - manylion ar dudalennau 9 – 12
5	Boddhad Aelodau	-	oren	Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol.
6	Ymgysylltu â'r Cynulliad	gwyrdd	gwyrdd	Parhaodd niferoedd ymwelwyr i godi ac mae lefelau boddhad ymwelwyr wedi gwella (sgorau da/boddhaol - 90%).
7	Proffil Allanol y Cynulliad	gwyrdd	gwyrdd	Cafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv. Gostyngiad yn nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu a thraffig i Gofnod y Trafodion.
8	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu)	gwyrdd	gwyrdd	Lefel dda o ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad, yn enwedig o ran pobl ifanc a gwaith y pwyllgorau. Cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rhif Grŵp KPI	Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014	Sylwadau - manylion ar dudalennau 13 – 16
9	Boddhad Aelodau	gwyrdd	gwyrdd	Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh.
10	Perfformiad Cyllidebol	gwyrdd	gwyrdd	Sefyllfa gref o ran % y tanwariant a ragwelwyd a gwariant yn erbyn proffil. Cyrhaeddwyd y targed Gwerth am Arian blynyddol yn ystod mis Rhagfyr.
11	Staff	oren	gwyrdd	Mae cyfraddau salwch absenoldeb wedi gwella ymhellach ac yn dal yn is na'r targed a chyfartaledd y sector. Gostyngiad yn nifer yr adolygiadau o berfformiad a gofnodwyd erbyn y terfyn amser.
12	Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh	oren	oren	Perfformiad cyffredinol targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ymdrin ag achosion llawer yn is na'r cyfartaledd yn ystod deufis olaf y cyfnod adrodd. Mae'r sgôr boddhad cwsmeriaid yn uchel o hyd.
13	Llywodraethu	gwyrdd	oren	Mae taliadau'n parhau o fewn yr amser targed. Gwelliant o ran % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu hateb ar amser (92% yn erbyn targed o 100%).
14	Cynaliadwyedd	oren	oren	Mae allyriadau ynni wedi parhau i ostwng, ond maent yn debygol o fethu'r targed uchelgeisiol o ostyngiad o 40%. Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gwastraff i safleoedd tirlenwi.
15	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad)	gwyrdd	gwyrdd	Blaenoriaethau'r flaenraglen fuddsoddi a'r cynllun cynnal a chadw wedi'u cwblhau.

Allwedd

COCH: Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

OREN: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

GWYRDD: Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

	Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf						
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14	Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15		Naratif
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:							
1	Y Cyfarfod Llawn	7.70 yn 2013	8.00	7.70	7.70	⇨	Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos bod pethau wedi gwella, neu na fu newid, ers y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013.
	Cyfarfodydd pwyllgor	7.90 yn 2013	8.00	7.90	7.90	⇨	
	Gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith	6.20 yn 2013	8.00	6.20	8.90	⇧	
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys:							
2	% y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor	Amherthnasol	100%	Amherthnasol	93.74%	-	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Nid oes cymharydd gan fod y mesur wedi newid i ddangos y terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor yn hytrach na'r terfyn amser yn y Rheolau Sefydlog, sef o leiaf 2 ddiwrnod cyn cyfarfodydd.
	% yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno	98% ar gyfartaledd yn 2013-14	100%	98.00%	98.66%	⇧	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr.
	% Cofnod trafodion y cyfarfod llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser	100% ar gyfartaledd yn 2013-14	100%	100%	100%	⇨	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr.
	Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfod llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn	12 allan o 350 (3.43%) yn 2013-14 (r)	Dim	11 allan o 248 (4.4%)	3 allan o 260 (1.15%)	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr.
	% Cofnod trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	Amherthnasol	100%	Amherthnasol	94.50%	-	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Newidiwyd y targed o 14 diwrnod i 5 diwrnod felly nid oes cymharydd. Methwyd targedau oherwydd nifer annisgwyl o gyfarfodydd ym mis Hydref (28 o gymharu â'r cyfartaledd, sef 16) a thrafodion hirach na'r arfer.
	% y rhestrau wedi'u didoli ar gyfer trafodion Bil yng Nghyfnod 3 a gyhoeddwyd erbyn terfyn amser y Rheolau Sefydlog	Amherthnasol	>2 ddiwrnod o drafod	Amherthnasol	100%	⇨	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Gweler yr amser a dreuliwyd ar gamau pob darn o ddeddfwriaeth yn y graff yn yr Atodiad.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15**		**Naratif**
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:							
3	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg	34 (fel ym mis Mawrth 2014)	Cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg	34	44	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Mae dangosydd newydd ar gyfer capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect i wella gwasanaethau dwyieithog.
	Nifer Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol	41 o Aelodau Cynulliad / 155 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn 2013-14.	Cynnal nifer Aelodau'r Cynulliad / staff cymorth sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol	33 o Aelodau Cynulliad / 128 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad	40 o Aelodau Cynulliad / 139 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Mae nifer yr Aelodau Cynulliad / staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus wedi cynyddu o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r nifer sy'n ailymgymryd â datblygiad proffesiynol, sy'n adlewyrchu cyfanswm Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth a gymerodd ran yn ystod y cyfnod, wedi cynyddu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ond wedi gostwng ychydig ar gyfer eu staff cymorth o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
	Nifer Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ailymgymryd â datblygiad proffesiynol	407 o Aelodau Cynulliad / 641 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn 2013-14.		250 o Aelodau Cynulliad / 499 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad	255 o Aelodau Cynulliad / 426 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad	⇩	

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf					
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14	Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15		Naratif
***Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*:**							
4	Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh.	-	Gwyrdd	Gwyrdd	Gwyrdd	⇨	Mae gwelliannau a roddwyd ar waith ar gyfer y weledigaeth o Bwyllgorau o'r radd flaenaf wedi'u hymgorffori a chafwyd adborth cadarnhaol gan yr Aelodau a'u staff cymorth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau adnoddau ar gyfer y llwyth gwaith craffu deddfwriaethol trwm ac i deilwra cymorth i anghenion Aelodau unigol. Mae gwefan y Cynulliad wedi'i huwchraddio i'w gwneud yn haws ei defnyddio. Mae'r un platfform technolegol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu system feddalwedd newydd y Siambr, a gaiff ei lansio yn nhymor yr haf 2015. Lansiwyd platfform newydd Senedd.tv ym mis Medi, gan gynnig mwy o nodweddion i ddefnyddwyr a gwell mynediad at drafodion ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau symudol.
	Gwasanaethau dwyieithog gwell	-	Gwyrdd	Gwyrdd	Gwyrdd	⇨	Sicrhawyd arbedion effeithlonrwydd o 20% drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu peirianyddol newydd a chyflwyno targedau ar gyfer cynhyrchedd yn y dyfodol. Mae newidiadau i brosesau Cofnod y Trafodion yn dilyn adolygiad wedi rhyddhau capasiti hefyd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu a hyrwyddo'r adnodd cyfieithu peirianyddol mewn cydweithrediad â Microsoft. Rhoddwyd sawl mesur ar waith i hyrwyddo dysgu Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys: y tiwtor staff penodedig i ddarparu hyfforddiant i bob aelod o staff allu cyfarch pobl yn ddwyieithog a hyfforddiant ymwybyddiaeth Gwasanaethau Dwyieithog i holl staff y Comisiwn.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

	Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf						
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14	Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15		Naratif
Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (parhau):							
4	Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad	-	Gwyrdd	Amherthnasol	Gwyrdd	⇨	Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cynnal ymgynghoriad cyn gwneud Penderfyniad ynghylch taliadau a chymorth ariannol i Aelodau'r Pumed Cynulliad. Cyflwynodd y Comisiwn sylwadau i'r Bwrdd Taliadau ynghylch blaenoriaethau ar gyfer datblygiad strategol y Cynulliad, gan adlewyrchu materion o bwys i Aelodau'r Cynulliad, fel cyfathrebu lleol â'u hetholwyr. Mae'r Llywydd a'r Comisiwn yn gweithio i sicrhau bod Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ystyried buddiannau'r Cynulliad er mwyn dylanwadu ar gyd-destun cyfansoddiadol y DU, sy'n newid, a datganoli pwerau newydd i'r Cynulliad.

	Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru						
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14	Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15		Naratif
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:							
5	Ymgysylltu â phobl Cymru	-	8.00	-	6.70	-	Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Newidiwyd y cwestiwn, felly nid oes cymharydd ar gyfer arolwg 2013.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15**		**Naratif**
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ymgysylltiad yn y Cynulliad, gan gynnwys:							
6	Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd/Pierhead	Cyfanswm o 168,505 yn 2013-14	Cynnydd o gymharu â 2013-14	130,031	133,737	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. Mae nifer yr ymwelwyr yn parhau i gynyddu gyda 14,860 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 14,448 y mis yn yr un cyfnod y llynedd.
	Nifer yr ymwelwyr ar deithiau	Cyfanswm o 15,466 yn 2013-14		11,906	13,073	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. Mae nifer yr ymwelwyr ar deithiau yn parhau i godi gyda 1,452 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 1,322 y mis ar gyfartaledd yn yr un cyfnod y llynedd.
	Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd	Cyfanswm o 370 yn 2013-14	Cynnydd o gymharu â 2013-14	275	219	⇩	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr.
	Lefelau boddhad ymwelwyr	87% ar gyfartaledd yn 2013-14	80% sgorau da/boddhaol	85%	90%	⇧	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Mae'r sgôr ar gyfartaledd gan ymwelwyr â'r Senedd yn uwch na'r un cyfnod y llynedd.
	Digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru	Cyfanswm 5 2013-14	-	5	3	⇩	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr.
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad, gan gynnwys:							
7	Adroddiadau pwyllgor a hyrwyddwyd gan y cyfryngau neu'r wasg	81% ar gyfartaledd yn 2013-14	100%	73%	100%	⇧	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Cafodd pob un o'r 12 adroddiad pwyllgor a gyhoeddwyd sylw yn y cyfryngau.
	Yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn edrych ar ein tudalennau ar y we	3 munud 59 eiliad ar gyfartaledd yn 2013-14	Anelir at gynyddu hyn bob cyfnod	3 mun 11 eiliad	2 mun 3 eiliad	⇩	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Mae dangosydd yn cael ei ddatblygu i fesur rhyngweithio â gwefan y Cynulliad yn well.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

	Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru					
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14	Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15		Naratif
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad, gan gynnwys (parhau):							
7	**Rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol:**						
	Facebook - hoffi / ymgysylltu	2,610 wedi ein 'hoffi' erbyn mis Mawrth 2014	Anelir at gynyddu hyn bob cyfnod	2,402 wedi ein 'hoffi'	2,956 / 3,609	⇧	Cyfanswm ddiwedd mis Rhagfyr. O fis Ebrill 2014, mae cyfanswm y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad ar Facebook (hoffi, sylwadau a rhannu) wedi'i ychwanegu. Mae nifer y bobl sy'n ein 'hoffi' yn parhau i gynyddu.
	Twitter - cyfanswm dilynwyr (pob cyfrif Twitter) / ymgysylltiad (prif gyfrifon Twitter yn unig)	25,283 o ddilynwyr ym mis Mawrth 2014		22,035 o ddilynwyr	34,924 / 1,028	⇧	Cyfanswm ddiwedd mis Rhagfyr. Mae nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad ar Twitter wedi'i hychwanegu. Cynnydd sylweddol yn nifer ein dilynwyr ar Twitter o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
	YouTube - ymwelwyr / munudau a wyliwyd	Cyfanswm o 20,177 / 39,325 yn 2013-14		10,854 / 22,979	18,816 / 32,258	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. O fis Ebrill 2014, ychwanegwyd cyfanswm y munudau a wyliwyd ar YouTube. Gwyliwyd 3,584 o funudau ar gyfartaledd y mis o gymharu â 2,872 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.
	Defnydd o Senedd TV - ymwelwyr / defnyddwyr	Cyfanswm o 67,059 / 6,191 yn 2013-14		53,021 / 4,554	87,432 / 11,124	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. O fis Ebrill 2014, ychwanegwyd defnyddwyr Senedd TV. Cynnydd sylweddol yn nifer y gwylwyr a'r dilynwyr o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
	Nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu â thîm allgymorth y gwasanaeth addysg am y tro cyntaf	Cyfanswm o 106 2013-14 (44 allgymorth)		81 (35 allgymorth)	67 (29 allgymorth)	⇩	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. Ymgysylltodd 67 o ysgolion newydd, 29 ohonynt drwy'r tîm allgymorth addysg.
	Y traffig misol ar dudalennau Cofnod y Trafodion ar gyfartaledd - Cyfarfod Llawn yn unig	7,578 ar gyfartaledd yn 2013-14		7,756	5,163	⇩	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Mae'r gostyngiad yn rhannol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o Senedd TV a chynnydd cysylltiedig o ran ymweliadau â thrafodion byw.
	Ymgysylltu rhyngwladol yn y Cynulliad ac oddi yno	cyfanswm o 200 yn 2013-14 (17 y mis ar gyfartaledd)	-	139	169	⇧	Y cyfanswm rhwng Ebrill - Rhagfyr. Bron 19 y mis o gymharu â 17 y mis yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr [1] 2014-15**		**Naratif**
Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol							
8	Ymgysylltu'n well â phobl Cymru	-	Gwyrdd	Gwyrdd	Gwyrdd	⇨	Ers mis Medi, rydym wedi darparu 181 o sesiynau dysgu, gan ymgysylltu wyneb yn wyneb â 5,839 o bobl ifanc gan gynnwys dau ddigwyddiad Hawl i Holi yng Ngogledd Cymru. Mae gwybodaeth am sut y mae pobl ifanc yn cymryd mwy o ran yng ngwaith y Cynulliad bellach yn cael ei hyrwyddo ar **www.dygynulliad.org**. Mae nifer o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cefnogi gwaith pwyllgorau, gyda'r nod o ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad. Mae dros 60,000 o ddefnyddwyr wedi gweld cynnwys ar ein sianel YouTube ers 2009, ac mae rhagor o gyfrifon Twitter wedi'u lansio i hyrwyddo darnau penodol o waith y Cynulliad ymhellach. Bellach, mae'r Cynulliad yn cyrraedd 30,000 o bobl ar Twitter.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

	Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2014-15**		**Naratif**
Lefel boddhad yr Aelodau o ran:							
9	Lwfansau a staffio	8.30 yn 2013	8.00	8.30	8.70	⇧	Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos gwelliant ar y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013.
	Tŷ Hywel a'r Senedd	7.60 yn 2013	8.00	7.60	7.80	⇧	
	Sgôr boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn Nhŷ Hywel a'r Senedd	6.60 yn 2013	8.00	6.60	7.50	⇧	
	Lefel boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn y swyddfeydd etholaeth / rhanbarthol	6.10 yn 2013	8.00	6.10	6.70	⇧	
Dangosyddion perfformiad allweddol ar y gyllideb, gan gynnwys:							
10	Y Gyllideb - % rhagolwg tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn	0.07% ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14	<1%	0.41%	0.40%	⇨	Fel ym mis Rhagfyr. Eir ati'n weithredol i fonitro perfformiad ariannol er mwyn cydbwyso'r gofynion i wario ar weithredu a buddsoddi fel eu bod oddi mewn i'r targed o 1%.
	Y Gyllideb - gwariant yn erbyn proffil	1.24% ar ddiwedd y flwyddyn 2013-14	o fewn 2% i'r proffil	3.43%	1.47%	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Mae gwariant yn parhau'n unol â chynlluniau'r gyllideb.
	Targed gwerth am arian a chyflawniad	£508,000 ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14	£500,000	£374,000	£542,000	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Cyflawnwyd y targed arbedion ar gyfer y flwyddyn yn ystod mis Rhagfyr.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2014-15**		**Naratif**
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer staff, gan gynnwys:							
11	% absenoldeb oherwydd salwch	2.44% (cyfartaledd treigl ym mis Mawrth 2014)	<3%	3.06%	2.71%	⇧	Y cyfartaledd blynyddol, fel ym mis Rhagfyr. Mae hyn yn gyfystyr â 6 diwrnod fesul cyflogai o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 7.9 diwrnod.
	% adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd	89%	100%	89%	79%	⇩	Canran yr adolygiadau diwedd blwyddyn a gofnodwyd ar system newydd adnoddau dynol / y Gyflogres erbyn mis Rhagfyr 2014. Mae'r cyfraddau cwblhau yn is na'r un cyfnod y llynedd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i dargedu meysydd penodol, gan ddarparu cymorth ac arweiniad ychwanegol fel y bo angen.
	Lefel ymgysylltiad staff (o'r arolwg staff)	78% 2012	80%	81%		⇧	Canlyniad arolwg 2013 yn dangos bod 81% yn argymell y Cynulliad fel lle gwych i weithio yno. Caiff dangosydd newydd o ran ymgysylltu â staff ei ddatblygu gan ddefnyddio canlyniadau'r arolwg staff, i'w gwneud yn bosibl meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill.
	Nifer y staff - Nifer y bobl a'r nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE)	412 o bobl 393.87 FTE Mawrth 2014	-	390 o bobl 371.50 FTE	434 o bobl 405.26 FTE		Fel ym mis Rhagfyr. Y lefel trosiant ym mis Rhagfyr oedd 4.37%, sef y lefel isaf erioed yn ystod y cyfnod hwnnw.
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TGCh:							
12	% targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos	Amherthnasol	100%	Amherthnasol	85.52	Amherthnasol	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr 2014. Effeithiwyd ar y perfformiad cyffredinol gan ostyngiad yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn sgil cyflenwi swydd wag hollbwysig ar y Ddesg Gymorth. Caiff sgorau'r cytundeb lefel gwasanaeth eu hadolygu fel rhan o waith parhaus i wella gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn deg ac yn addas i'r diben.
	Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9)	Amherthnasol	9.00	Amherthnasol	8.6	Amherthnasol	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr. Dangosydd newydd yw hwn ac nid oes cymaryddion.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth					
		Cymharydd	**Targed**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2013-14**	**Ebrill – Rhagfyr 1 2014-15**		**Naratif**
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraethu, gan gynnwys:							
13	Dyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu Aelodau a chyflenwyr o gymharu â'r targed	3.55 ar gyfartaledd yn 2013-14	<10 diwrnod	3.46	3.99	⇩	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill - Rhagfyr 2014.
	Nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd	Cyfanswm o 51 yn 2013-14	-	40	36	-	Ebrill - Rhagfyr 2014. Atebwyd 100% o'r ceisiadau ers mis Gorffennaf ar amser. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, roedd un ymateb yn hwyr am fod eithriad yn gymwys a dau yn hwyr am fod angen ymgynghori er mwyn rhoi ymateb cynhwysfawr.
	% o geisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol	88% ar amser 2013-14	100%	90%	92%	⇧	
	Nifer yr argymhellion Archwilio Mewnol sy'n hwyr	-	Dim	2	2	⇨	Ebrill - Rhagfyr 2014.
Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Cynaliadwyedd, gan gynnwys:							
14	Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd)	Llinell sylfaen 2008-09	Gostyngiad o 40% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2015	-31%	-35.10%	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Dechrau cadarn i'r flwyddyn â gostyngiadau parhaus o ran y defnydd o drydan a nwy, gan arwain at ostyngiad mewn allyriadau cronnus. Mae hynny'n fan cychwyn gwych ar gyfer gweddill y flwyddyn.
	Gwastraff i safleoedd tirlenwi	43 o dunelli ym mlwyddyn sylfaen 2010-11	0 tunelli erbyn mis Mawrth 2015	5.4 o dunelli (r)	3.25 o dunelli	⇧	Fel ym mis Rhagfyr. Mae dulliau gwell ar gyfer ailgylchu a didoli gwastraff yn golygu bod lefelau cyson isel o wastraff yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi bob mis, ac felly mae'r targed o fod yn ddiwastraff erbyn 2015 i'w weld yn gyraeddadwy.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

		Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth					
		Cymharydd	Targed	Ebrill – Rhagfyr 1 2013-14	Ebrill – Rhagfyr 1 2014-15		Naratif
Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol:							
15	Gwneud y gorau o'n hystâd	-	Gwyrdd	Gwyrdd	Gwyrdd	⇨	Mae nifer o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Flaenraglen Fuddsoddi a'r Cynllun Cynnal a Chadw wedi'u cyflawni gan gynnwys creu ardal ychwanegol ar gyfer digwyddiadau ger mynedfa Tŷ Hywel. Cafodd ein cyflawniadau cynaliadwyedd ar gyfer yr ystâd eu cymeradwyo'n annibynnol pan enillodd y Comisiwn y wobr ar gyfer y sefydliad mwyaf cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yn y gwobrau blynyddol ar gyfer cynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus. Ar ôl cynnal adolygiad pellach o drefniadau diogelwch, ar y cyd â'r heddlu, gwelwyd bod angen codi ymwybyddiaeth a gwneud gwelliannau, a bod y gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo.

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng Ebrill - Rhagfyr yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.

Prydlondeb (KPI 2)



Naratif: Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb gan barhau'r duedd ar gyfer 2013-14. Bellach, caiff canran y papurau pwyllgor a chanran cofnod trafodion y pwyllgorau a gyhoeddir eu mesur yn erbyn terfynau amser mwy heriol. Mae hyn wedi effeithio rywfaint ar lefel y perfformiad, ac mae'n golygu nad yw'n bosibl cymharu â 2013. Roedd gostyngiad yng nghanran cofnod trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd oddi mewn i'r terfyn amser ym mis Hydref oherwydd nifer annisgwyl o gyfarfodydd (28 o gymharu ag 16 fel arfer).

Datblygiad Proffesiynol (KPI 3)



Naratif: Mae nifer y dysgwyr Cymraeg wedi parhau'n gyson, ac eithrio cynnydd ym mis Ebrill pan gynhaliwyd gwersi Cymraeg dwys. Mae cyfanswm yr Aelodau Cynulliad newydd a'r staff cymorth newydd sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (gan gynnwys gwersi Cymraeg) yn parhau i gynyddu. Mae'r tabl manwl yn dangos data ar gyfer pobl sy'n ailymgymryd â hyfforddiant, h.y. cyfanswm Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth a gymerodd ran ym mhob math o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.

Ymgysylltu (KPI 6)



Naratif: Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Cynulliad bob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Mae'r tabl manwl hefyd yn dangos lefel uchel o foddhad cwsmeriaid ymhlith ymwelwyr â'r Senedd.

Proffil allanol (KPI 7)







Naratif: Cynnydd graddol parhaus o ran dilynwyr ar Twitter. Mae nifer yr ymweliadau â YouTube wedi amrywio oherwydd, ym mis Mai 2014, roedd cyfres o fideos byr yn dathlu 15 mlynedd o ddatganoli yn boblogaidd iawn. Roedd llai o ymweliadau â Senedd.tv yn ystod mis Ebrill 2014 gan ei fod yn cynnwys toriad o dair wythnos (dim ond un wythnos o doriad a gafwyd ym mis Ebrill 2013). Mae cyfanswm yr ymweliadau wedi cynyddu o gymharu â'r un cyfnod y llynedd ar gyfer YouTube (2,091 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 1,200 y llynedd) a Senedd.tv (9,714 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 5,891 y llynedd). Mae'r cynnydd sydyn mewn ymweliadau â Senedd.tv o fis Medi yn cyd-fynd â lansio platfform newydd Senedd.tv. Mae'r tablau manwl yn dangos nifer y bobl sy'n ymgysylltu.

Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.

% absenoldeb salwch (Staff y Comisiwn) - cyfartaledd blynyddol (KPI 11)



Naratif: Mae'r ffigurau ar gyfer absenoldeb salwch wedi bod yn gyson is na'r un cyfnodau y llynedd ac o fewn y targed o 3% ym mhob mis ers mis Ionawr 2014.

Amserlen ddeddfwriaethol: yr amser a gymerwyd i gwblhau pob cyfnod



Cyf Bil (*Cyfnod fel ar 12 Dec)*

1. Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (*Cwblhawyd 1 Mai)*
2. Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos *(Yn aros am ddyfarniad yr Uchel Lys)*
3. Y Bil Addysg (*Cwblhawyd 12 Mai)*
4. Y Bil y Sector Amaethyddiaeth (Bil Brys) (*Yn aros am ddyfarniad yr Uchel Lys)*
5. Y Bil Tai (*Yn aros am Gydsyniad Brenhinol)*
6. Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) (*Cyfnod 1)*
7. Y Bil Addysg Uwch (*Cyfnod 1)*
8. Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (*Cyfnod 1)*
9. Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (*Cyfnod 2)*
10. Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (y Bil Llythrennedd Ariannol gynt) (*Cyfnod 1)*
11. Y Bil Cynllunio (*Cyfnod 1)*
12. Bil Cymwysterau Cymru (*Cyfnod 1)*
13. Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (*Cyfnod 1)*

Naratif: Mae'r graff yn dangos yr amser a gymerodd pob Bil i gwblhau'r broses ddeddfwriaethol. Mae'n dangos y Biliau sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol (h.y. y rhai sydd wedi'u cwblhau) neu sy'n dal i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2014.